**LLYWODRAETH CYMRU**

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020**

**Hysbysiad Iechyd Planhigion *(Phytophthora pluvialis)* (Ardal a Ddarnodir 11)**

Mae arolygydd iechyd planhigion, wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru at ddibenion Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau"), wedi nodi presenoldeb *Phytophthora pluvialis* ar safleoedd yn Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen, Powys, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Caerdydd, Caerffili, Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot.

Wrth arfer y pwerau a roddir gan Reoliad 17(2) o'r Rheoliadau, rwy'n cyflwyno'r hysbysiad canlynol:

**Dyfynnu**

1. Gellir cyfeirio at yr hysbysiad hwn fel yr Hysbysiad Iechyd Planhigion (***Phytophthora pluvialis 11)*** (Cymru), a

2. Gan ddechrau ar 24 Ionawr 2023, mae'n dirymu ac yn disodli'r Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis*) (Ardal a Ddarnodir 6) a wnaed ar 12 Ebrill 2022.

**Ardal a ddarnodir**

3. Yn unol â rheoliad 17(2)(a) o'r Rheoliadau, mae'r ardal yn Sir Fynwy, Casnewydd, Powys, Torfaen, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot a Chaerdydd, o fewn y ffin a ddisgrifir yn Atodiad ac a ddangosir ar y map yn Atodiad 2 ar wefan Llywodraeth Cymru, wedi cael ei darnodi.

**Gwahardd symud planhigion a allai gael yr haint**

4. Yn unol â rheoliad 17(2)(b) o'r Rheoliadau, ni chaiff unrhyw unigolyn symud unrhyw blanhigion a allai gael yr haint o'r ardal a ddarnodir wedi'i nodi yn yr hysbysiad hwn, neu oddi fewn iddi, heb awdurdod ysgrifenedig gan Arolygydd Iechyd Planhigion.

**Blanhigion perthnasol a allai gael yr haint**

5. At ddibenion paragraff 4 uchod, mae planhigion a allai gael yr haint yn golygu unrhyw blanhigion ar gyfer plannu o'r genws ***Tsuga, Pseudotsuga, Pinus a Notholithocarpu*s** sydd wedi dod o'r ardal a ddarnodir neu sydd yn yr ardal honno.

**Dechrau'r gwaharddiad**

6. Mae'r gwaharddiad a nodir yn yr hysbysiad hwn yn berthnasol ar ac ar ôl **24 Ionawr 2023** nes y dywedir fel arall.

Llofnod



Bill MacDonald, Prif Swyddog Iechyd Planhigion Cymru

Llywodraeth Cymru, **17 Ionawr 2023**

**ATODIAD 1**

**Disgrifiad o faint yr ardal a ddarnodir**

Mae'r ffin yn dechrau yn SO227422 ac yn dilyn y B4348 am 400m i’r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn SO233422. O SO233422 mae'r ffin yn dilyn Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offer i'r de ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr am 19km. Mae'r ffordd yn mynd yn bennaf ar hyd crib ucheldir yn y Mynyddoedd Du sy'n codi i uchelder o 700m cyn cyrraedd SO311255. O SO311255 mae'r ffin yn parhau ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr i SO394265.

Nid yw'r ffin yn dilyn ffyrdd ar ôl SO394265, ac mae'n parhau i ddilyn y ffin rhwng Cymru a Lloegr i’r de am tua 22km lle mae'r ffin yn cyrraedd Afon Gwy yn SO534101. Yn SO534101 mae'r ffin yn dilyn Afon Gwy i'r de am 19km nes iddi gyrraedd Hen Bont Hafren yn ST543912. Yma mae'r ffin yn dilyn yr M48 am 12km nes iddi gyrraedd yr M4 yng Nghyffordd 23 yn ST438879. Mae'r ffin yn dilyn yr M4 i'r gorllewin am 92km, yn mynd heibio i Gasnewydd, Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr a Phort Talbot nes iddi gyrraedd Cyffordd 43 yn SS722957.

Gan adael cylchfan Llandarcy, mae'r ffin yn ymuno â'r A465, Ffordd Blaenau'r Cymoedd, gan fynd i gyfeiriad y gorllewin am 34km drwy Gastell-nedd, Resolfen a Hirwaun i SO027077, Merthyr Tudful. Yn y cylchfan mae'r ffin yn gadael yr A465 ac yn ymuno â'r A470 tua'r gogledd am 30km i SO031283.

Yn SO31283, mae'r ffin yn gadael yr A470 ac yn ymuno â'r A40 tua'r dwyrain am 3.9km tua chylchfan Brynich i SO066277. O SO066277, mae'r ffin yn parhau ar hyd yr A470 am 9.5 tua'r gogledd-ddwyrain i SO119341. Yn SO119341, mae'r A470 yn ymuno â'r A438 ac mae'r ffin yn parhau i'r gogledd-ddwyrain am 8.9km i'r Clas-ar-Wy yn SO180391. Yma mae'r ffin yn gadael yr A438 ac yn ymuno â'r B4350 am 6km, nes iddi gyrraedd y man cychwyn yn SO227422.